Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

## Cylch Meithrin Cwrt Henri
## Dryslwyn
## Sir Gaerfyrddin
## SA32 8RU

## Dyddiad yr ymweliad: Ebrill 2016

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |
| Elonwy Evans | Cynrychiolydd yr awdurdod lleol |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Cylch Meithrin Cwrt Henri wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ionawr 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r lleoliad ymhen rhyw chwe mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Ymestyn medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan y lleoliad yn awgrymu bod ymarferwyr yn dechrau cynnig cyfleoedd gwell i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant. Er enghraifft, mae llawer o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol, fel pan fyddant yn cyfrif darnau arian yn swyddfa bost y lleoliad. Yn gyffredinol, mae eu medrau siarad a gwrando yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd annigonol o ran ymestyn medrau plant yn systematig. Er enghraifft, er bod plant yn dangos eu bod yn gallu defnyddio adnoddau TGCh, ni chânt ddigon o gyfleoedd cynlluniedig i ymestyn eu medrau ac adeiladu arnynt trwy ddefnyddio'r adnoddau yn rheolaidd.

**Argymhelliad 2: Datblygu cynllunio manylach i hyrwyddo dilyniant cyson ym medrau'r plant**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn ddiweddar iawn, mae'r lleoliad wedi datblygu cynllunio dyddiol, manylach, sy'n nodi amcanion dysgu addas i symud dysgu plant ymlaen a chysylltu'r rhain â gweithgareddau ffocws. Mae'r fformat cynllunio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer arfarnu cynnydd plant a chofnodi'r camau nesaf, ac mae ymarferwyr yn dechrau gwneud defnydd addas o'r rhain. Fodd bynnag, nid yw'r system gynllunio newydd wedi'i sefydlu'n ddigon da i asesu pa mor effeithiol a hylaw ydyw, ac nid yw'n cael effaith ddigon cryf ar ddatblygu medrau'r plant hyd yn hyn. Mae arweinydd y lleoliad wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar i helpu i ddatblygu ei system ar gyfer olrhain medrau plant, ond nid yw'r hyfforddiant hwn wedi cael ei ddefnyddio eto.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol i'r holl blant**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi gwella lefel yr her a gynigir i blant yn eu chwarae rhydd cyffredinol a thrwy weithgareddau fel amser cylch ac amser stori. Er enghraifft, mae arweinydd y lleoliad yn gwneud defnydd da o holi yn ystod amser cylch i helpu plant i gofio'r hyn y maent wedi ei ddysgu o'r blaen ac atgyfnerthu geirfa newydd, fel 'hedyn',

'gwreiddiau' a 'pys'. Mae ymarferwyr yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr â'r plant yn ystod chwarae rhydd, gan fodloni eu hanghenion unigol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn helpu plentyn i gyfrif saith gŵydd mewn llyfr stori ac yn annog plant mwy abl i ddatblygu eu medrau cyfrif trwy ymuno mewn gêm fwrdd. Fodd bynnag, nid yw arferion dyddiol y lleoliad yn llifo'n ddigon da i gynnal diddordeb y plant a darparu her briodol yn gyson trwy gydol y sesiwn. O bryd i'w gilydd, mae'r sesiwn yn symud yn rhy araf ac nid oes cyfeiriad iddi, gan gynnwys amser byrbryd.

Mae'r lleoliad wrthi'n sefydlu ei fformat cynllunio. Trwy ddefnyddio'r taflenni cynllunio dyddiol a gyflwynwyd yn ddiweddar, mae'r arweinydd yn bwriadu canolbwyntio ar weithgareddau wedi'u seilio ar amcanion dysgu addas a gwelliannau sy'n rhoi cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ymarfer ac ymgorffori eu medrau. Mae'r rhain yn dechrau gweddu i anghenion pob un o'r dysgwyr a darparu her briodol, er mai megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r lleoliad yn datblygu ei systemau ar gyfer cofnodi man cychwyn pob plentyn a'r cynnydd a wna plant yn ystod sesiynau. Mae arweinydd y lleoliad wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn fwy systematig i nodi'r camau nesaf priodol yn nysgu'r plant.

**Argymhelliad 4: Sefydlu gweithdrefnau arfarnu i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Yn gyffredinol, nid yw prosesau arfarnu'r lleoliad wedi eu datblygu'n dda. Ni chânt effaith gadarnhaol ar wella deilliannau plant nac ar osod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae gan y lleoliad gynllun gweithredu ar waith, sydd wedi'i gysylltu'n addas ag argymhellion yr arolygiad. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys dyddiadau na meini prawf llwyddiant i helpu'r lleoliad i fesur cynnydd yn effeithiol. Er bod y cynllun yn cynnwys sylwadau bras yn nodi pa gamau a gymerodd y lleoliad, nid yw wedi cael ei arfarnu'n rheolaidd ac nid yw'n cynnwys tystiolaeth o effaith y camau gweithredu na chofnod o'r hyn y mae angen ei wneud nesaf.

Nid yw'r lleoliad wedi adolygu ac arfarnu ei gynllun datblygu, a ysgrifennwyd yn syth ar ôl yr arolygiad craidd. Nid yw dogfen hunanarfarnu'r lleoliad yn adlewyrchu'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt ar hyn o bryd. O ganlyniad, ni wnaed digon o gynnydd o ran sicrhau gwelliant.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pwyllgor rheoli wedi darparu cymorth cyson i'r lleoliad trwy gyfnod o ansefydlorwydd. Mae cadeirydd y pwyllgor yn wybodus am y lleoliad a'i gynnydd tuag at fodloni'r argymhellion. Mae wedi gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr ag athro cyswllt yr awdurdod lleol i gynnal y momentwm tuag at sefydlu arweinyddiaeth sefydlog ar gyfer y lleoliad.

Mynychodd aelodau o'r pwyllgor gyfarfod yn Ionawr 2016 gyda Mudiad Meithrin i'w helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o'u rôl strategol. Mae hyn yn mynd rhagddo'n briodol. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu'r pwyllgor yn trafod ceisio dod o hyd i'r dull mwyaf cost effeithiol o brynu adnoddau traul ar gyfer y lleoliad. Mae prosesau addas ar waith i arfarnu gwaith ymarferwyr trwy werthusiadau blynyddol rheolaidd. Mae'r rhain yn dechrau nodi anghenion datblygiad proffesiynol yn briodol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau arweinyddiaeth sefydlog i'r lleoliad**

Cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol o ran arweinyddiaeth y ddarpariaeth dros y 12 mis diwethaf, er gwaethaf ymdrechion y pwyllgor rheoli. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd. Penodwyd y dirprwy arweinydd i rôl y goruchwyliwr yn ddiweddar. Oherwydd y raddfa amser fer ers ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn, mae'n rhy gynnar i farnu sefydlogrwydd yr arweinyddiaeth yn y lleoliad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r lleoliad barhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen rhagor o gynnydd.